



## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg

### 5 Chwefror 2021

### Cofnodion

<b>Yn bresennol:</b>		
<b>Enw</b>	<b>Teitl</b>	<b>Sefydliad</b>
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Rob Thomas (RT)	Rheolwr Gyfarwyddwr	Cyngor Bro Morgannwg
Y Cynghorydd Liz Burnett (LB)	Dirprwy Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Y Cynghorydd Mike Cuddy (CMC)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref Penarth
Janine Bennett (JB)	Deon Cyfadran	Coleg Caerdydd a'r Fro
Charles Janczewski (CJ)	Cadeirydd y BIP	BIP Caerdydd a'r Fro
Tom Porter (TP)	Ymgynghorydd Meddygol Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Wendy Gunney (WG)	Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
Shaun Moody (SM)	Rheolwr Grŵp	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Partneriaethau Cyllid a Gweithlu Llywodraeth Leol	Llywodraeth Cymru
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM)
Hannah Williams (HW)	Pennaeth De Cymru Un	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Mike Evans (ME)	Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
<b>Hefyd yn bresennol:</b>		
Tom Bowring (TB)	Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes	Cyngor Bro Morgannwg
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Joanna Beynon (JRB)	Swyddog Polisi	Cyngor Bro Morgannwg
Edward Hunt (EH)	Cyfarwyddwr Rhaglen	BIP Caerdydd a'r Fro
Victoria Le Grys (VL)	Cyfarwyddwr Rhaglen	BIP Caerdydd a'r Fro
<b>Ymddiheuriadau:</b>		
Paula Ham (PH)	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau	Cyngor Bro Morgannwg

Y Cyngorydd Neil Moore (NM)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Nadia De Longhi (ND)	Rheolwr Gweithrediadau	Cyfoeth Naturiol Cymru
Emil Evans (EE)	Is-brifathro	Coleg Caerdydd a'r Fro
Chris Hadfield (CH)	Rheolwr Grŵp	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Anne Wei (AW)	Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol	BIP Caerdydd a'r Fro
Mark Cadman (MC)	Rheolwr Gweithrediadau Ambiwlans, Ardaloedd Caerdydd a'r Fro	Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Eitemau'r Agenda	Camau Gweithredu
<p><b>1. Croeso a chyflwyniadau</b></p> <p>Croesawodd MB bawb i gyfarfod y BGC.</p>	
<p><b>2. Ymddiheuriadau</b></p> <p>Gweler uchod.</p>	
<p><b>3. Cofnodion Cyfarfod y BGC ar 4 Rhagfyr 2020</b></p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.</p> <p>Dywedodd TB wrth y partneriaid fod y cam gweithredu i gwrdd â Cath Doman wedi ei ohirio gan y disgwylir am ganllawiau ar Asesiad Anghenion y Boblogaeth (AAB).</p>	
<p><b>4. Diweddariad COVID-19</b></p> <p>Cydnabu RT y gwaith da sy'n parhau i ddigwydd ar draws y rhanbarth drwy POD (Profi, Orlhain, Diogelu) a chyflwyno'r brechlyn COVID-19. Mae'r cyfraddau uwch o COVID a welwyd yn y Fro cyn ac ar ôl y Nadolig wedi sefydlogi. Er bod y cyfraddau'n gostwng maent yn gostwng o lefel uchel iawn, felly mae'r cyfraddau'n parhau'n uchel er gwaethaf y duedd ar i lawr. Esboniodd RT y bu pryderon ynghylch y straen newydd ac mae hyn yn rhan o resymeg Llywodraeth Cymru dros y cyfnod cloi presennol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch cyhoeddiad disgwylidig Llywodraeth Cymru ar ddychwelyd ysgolion a ddisgwylir y prynhawn yma. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr y Cyngor yn parhau i weithio gartref a hwn yw'r norm erbyn hyn..</p>	

<p>Rhannodd TP y dangosfwrdd COVID-19 diweddaraf yng Nghaerdydd a'r Fro a ddangosodd fod cyfraddau achosion ar draws y rhanbarth yn gostwng. Esboniodd TP y tueddiadau presennol sy'n dangos i'r gyfradd heintio yn y Fro gynyddu ym mis Hydref/Tachwedd 2020, ond roedd mwy o gynnydd yng Nghaerdydd. Tynnodd TP sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae nifer y profion positif yn parhau i ostwng, ond mae nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn parhau'n uchel iawn. Ers mis Tachwedd/Rhagfyr 2020 mae derbyniadau yn uwch na'r uchafbwynt a welwyd ym mis Ebrill.</li> <li>• Mae nifer y bobl yng ngwelyau'r wardiau COVID wedi dyblu ers y don gyntaf, ond mae'r gyfradd cynnydd yn dechrau gostwng.</li> <li>• Yn anffodus, bu cynnydd yn nifer y marwolaethau ar draws y rhanbarth yn seiliedig ar niferoedd marwolaethau'r SYG gyda'r uchafbwynt yn yr ail don yn fwy na'r hyn a fu yn y cyntaf.</li> </ul> <p>Yn gyffredinol, cafwyd datblygiadau cadarnhaol ac mae'r darlun yn galonogol, ond mae pryderon o hyd ynghylch cartrefi gofal, derbyniadau i'r ysbyty a theithwyr sy'n dychwelyd.</p> <p>Diolchodd CJ i'r BGC a'r cynrychiolwyr am y cymorth a roddwyd i'r Bwrdd Iechyd. Er bod staff wedi blino'n lân, mae'r cymorth yn gwneud gwahaniaeth mawr i forâl.</p> <p>Gofynnodd MB faint o bobl sydd wedi cael y brechlyn. Amlinellodd TP fod cynnydd, yn gyffredinol, ar y trywydd cywir er mwyn gallu gwneud grwpiau blaenoriaeth 1 -4 erbyn canol mis Chwefror 2021. Ar ôl canol mis Chwefror bydd y broses o'i gyflwyno yn arafu dros dro oherwydd y cyflenwad ond bydd yn cynyddu eto ym mis Mawrth. Cadarnhaodd CJ y bydd Holm Vue yn y Barri yn agor ddydd Llun 8 Chwefror 2021 fel canolfan frechu torfol a bydd yn agor i hyd at 500 o apwyntiadau'r dydd i ddechrau, gan dyfu i 1,000.</p>	
<p><b>5. Cyfarfod rhwng y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a Chadeiryddion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, 22 Mawrth 2021</b></p> <p>Dywedodd RT wrth y partneriaid fod cyfarfod wedi'i drefnu rhwng y Gweinidog Tai a'r holl Gadeiryddion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mawrth 2021. Mae llythyr a dderbyniwyd yn gofyn am drafodaeth ar sut y gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddatblygu ymhellach, gan nodi diwedd cylch Cynlluniau Lles Lleol. Dechreuodd RT drafodaethau i'r holl bartneriaid rannu eu barn ar ba adborth y dylai'r Cadeirydd ei roi ym mis Mawrth.</p> <p>Dywedodd MB fod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru yn trafod beth yw'r blaenoriaethau ac a oes unrhyw flaenoriaethau newydd yn dod i'r amlwg o ganlyniad i COVID. Mae'r cylch nesaf yn gyfle da i gael llai o flaenoriaethau mwy penodol. Atseiniodd WG hyn gan fod Heddlu De Cymru yn sefydliad sy'n cefnogi 7 BGC a dywedodd fod strategaethau diogelwch cymunedol yn mabwysiadu dull tebyg er mwyn canolbwyntio ar faterion a heriau cymunedol lleol.</p> <p>Nododd RT mai un o'r heriau ar gyfer y BGC o ran bwrw ymlaen â'r gwaith yw adnoddau o'i gymharu â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) sydd â llawer o arian a staff i gefnogi eu gwaith. Mae cylch gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) yn enfawr ei natur ac mae'r disgwyliad ar BGCau yn sylweddol fel y dangosir gyda'r Asesiadau Lles a'r Cynllun Lles uchelgeisiol. Mae'r cylch gwaith mawr hwn yn effeithio ar adnoddau. Mae arian yn parhau'n her, ond mae'r BGC yn cael rhywfaint o arian, ac mae'r arian diweddar gan Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft, i'w groesawu'n fawr. Mae cysylltu â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn fater allweddol arall. Fodd bynnag, roedd RT yn</p>	

<p>awyddus i nodi bod llwyddiant y BGC yn llawer mwy na'r heriau. Un o lwyddiannau'r BGC yw'r berthynas dda rhwng partneriaid ac mae'r gwaith gwych rhwng partneriaid ers mis Mawrth 2020 yn dystiolaeth o hyn. Ar draws y BGC mae llawer o arbenigedd, gan alluogi'r BGC i ganolbwyntio ar amrywiaeth o feysydd gwaith gan wybod bod yr arbenigedd ar gael i'w datblygu. Enghraifft o hyn yw'r Siarter Argyfwng Hinsawdd a'r Siarter Teithio Iach i Staff na fyddent gennym heb yr arbenigedd hwn.</p> <p>Awgrymodd RT hefyd fod angen i'r BGC ddatblygu'r dull gweithdy sydd wedi gweithio'n dda o'r blaen ar bynciau penodol.</p> <p>Dywedodd ME wrth y partneriaid fod gwaith yn digwydd ledled Cymru i edrych ar yr effaith y mae COVID wedi'i chael ar weithio a sut mae sefydliadau wedi ymateb e.e. llai o deithio, mwy o weithio o bell, i gael gwybod am y wersi a ddysgwyd. Gellid bwrw ymlaen â llawer o newidiadau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau naturiol.</p> <p>Dywedodd MC, o safbwynt cyfathrebu, nad yw Cynlluniau Lles yn weladwy mewn gohebiaeth nac i Gyngorau Tref a Chymuned, ac mae hyn yn broblem gyda phensaerniaeth y Ddeddf ei hun. Mae gwella gwelededd mewn cymunedau ac ymgysylltu â chymunedau'n allweddol.</p> <p>Cytunodd JC â'r heriau a gyflwynwyd gan RT a dywedodd, iddi hi, y byddai'r manteision yn cael eu gweld wrth fynd i'r afael â materion mawr gyda'i gilydd yn hytrach na materion llai.</p> <p>Cytunodd LB â RT hefyd a dywedodd y gellir gweld manteision gweithio mewn partneriaeth gan alluogi gwahanol sefydliadau sydd â'r arbenigedd i ymgymryd â darnau penodol o waith ar y cyd y BGC. Nid oes rhaid i bob partner fod â rôl weithredol ym mhob un o wahanol elfennau gwaith y BGC. Byddai'n ddefnyddiol iawn cael nodau eang i'w defnyddio i ddatblygu rhaglenni peilot. Mae eisoes enghreifftiau da o hyn drwy'r gwaith gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Bwyd y Fro i dreialu prosiectau a dod â'r dysgu yn ôl i'r BGC.</p> <p>Atseiniodd RC y sylwadau cynharach a chododd ymholiadau ynghylch y BGC yn gweithio gyda'r BPRh a sut mae BGCau yn rheoli'r berthynas â BPRhau. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau dogfen ar gyfer ymgynghori sy'n cynnwys y posibilrwydd o ffurfio'r BPRh yn llawn. Awgrymodd MB y byddai'r Heddlu'n hoffi cael perthynas agosach â'r BPRh gan nad ydynt yn eistedd ar y bwrdd ar hyn o bryd. Nododd RT yr her o ran dyblygu rhwng BPRhau a BGCau mewn perthynas â gwaith ac aelodau'r bwrdd. Mae hwn yn fater y gellir ei drafod gyda'r Gweinidog.</p> <p>Dywedodd HM wrth y partneriaid y byddai trafodaethau ynghylch sut i gysoni'r gwaith ar yr Asesiad Lles ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth y bydd y BPRh yn eu cynnal. Wrth ymgymryd ag Asesiadau Lles blaenorol BGCau, cynhaliwyd gwaith ymgysylltu ynghyd â BGC Caerdydd a BPRh Caerdydd a'r Fro, ond rhaid i Asesiadau Lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael eu gwneud mewn cymunedau lleol, tra bod angen i Asesiad Anghenion y Boblogaeth y BPRh gael ei wneud ar lefel llawer uwch ar draws y rhanbarth. Mae arian wedi'i roi i helpu BGCau i gynnal eu Hasesiadau Lles nesaf. Disgwylir canllawiau ar Asesiad Anghenion y Boblogaeth i weld sut y gall y BGC a'r BPRh gydweithio.</p> <p>Gofynnodd RT i bartneriaid anfon unrhyw adborth ychwanegol sydd ganddynt neu faterion yr hoffent i'r Cadeirydd eu codi gyda'r Gweinidog at HM</p>	<p><b>Pawb</b></p>
<p><b>6. Cynnwys Cyngorau Tref a Chymuned (CTChau)</b></p>	

<p>Cyflwynodd HM a MC drosolwg o sut y mae CTChau wedi'u cysylltu â'r BGC drwy ganllawiau Llywodraeth Cymru a'r gofynion a osodir ar CTChau'r Barri, Penarth a Llanilltud Fawr gan y Ddeddf i gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni'r amcanion lleol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Lles lleol sydd ar waith yn eu hardaloedd. Amlygodd y cyflwyniad fod yn rhaid i'r CTChau hyn weithio tuag at gyflawni Cynllun Lles y BGC a rhaid iddynt gynhyrchu adroddiadau blynyddol yn erbyn y Cynllun.</p> <p>Dywedodd MC fod 26 o CTChau yn y Fro. Wrth sefydlu'r BGC dewiswyd cynrychiolydd i eistedd ar y Bwrdd, mae'r cynrychiolydd yn eistedd am gyfnod o ddwy flynedd er bod rhai CTChau wedi cwestiynu pam nad ydynt yn eistedd ar y BGC yn uniongyrchol. Rhoddir diweddariadau rheolaidd gan y BGC i'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol, ac roedd y Pwyllgor yn ymwneud yn flaenol â'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Lles a'r Asesiad Lles. Cydnabuwyd bod y CTChau yn bartneriaid adnoddau gwerthfawr sy'n awyddus i gymryd rhan bellach. Ymhlith y cyfleoedd a awgrymwyd i gynnwys CTChau yng ngwaith y BGC roedd y siarter argyfwng hinsawdd, Deddf yr Amgylchedd a bioamrywiaeth a'r Asesiad Lles. Dywedodd MC wrth y partneriaid fod CTChau yn cael grantiau amgylcheddol ychwanegol ac y byddent yn awyddus i gydweithio yn y maes hwn.</p> <p>Cytunodd MB â'r cyfleoedd a awgrymwyd i gynnwys CTChau ymhellach ac i gryfhau eu hymgysylltiad. Cydnabu MB fod llawer o waith gwych yn cael ei wneud gan CTChau, yn enwedig mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd. Cytunodd y partneriaid i fanteisio ar y cyfleoedd a awgrymwyd yn y cyflwyniad i agor sgwrs ehangach gyda CTChau.</p>	<b>MC a HM</b>
<p><b>7. Lansio'r Siarter Argyfwng Hinsawdd</b></p> <p>Rhoddodd RT y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y cynnydd a wnaed ers cyflwyno'r Siarter ddrafft i bartneriaid a thynnodd sylw at y gwaith hwn fel enghraifft o gryfder gweithio mewn partneriaeth yn y BGC. Diolchodd RT i Cyfoeth Naturiol Cymru ac ND yn arbennig a drefnodd ac a gadeiriodd gyfarfod cyntaf is-grŵp newid yn yr hinsawdd y BGC am eu gwaith o ran datblygu'r Siarter. Diolchwyd i HM hefyd am ei chyfraniad.</p> <p>Amlinellodd RT elfennau allweddol y Siarter a nododd mai llofnodi'r Siarter yw dechrau'r gwaith ac mai ei rhoi ar waith yw'r her wrth symud ymlaen. Crëwyd datganiad i'r wasg a negeseuon cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y lansiad cyhoeddus. Anfonwyd y Siarter hefyd at bob partner er mwyn iddo ei dosbarthu a'i hyrwyddo yn ei sefydliad ei hun a thrwy ei sianeli cyfathrebu allanol</p> <p>Awgrymodd MB y dylid ailedrych ar y Siarter yn rheolaidd i dynnu sylw at gyfleoedd i weithio ymhellach mewn partneriaeth a'r cynnydd a wnaed.</p> <p>Cytunodd holl bartneriaid y BGC ar y Siarter Argyfwng Hinsawdd.</p>	<b>Pawb</b>
<p><b>8. Ysbyty Athrofaol Cymru (AYC) 2 a 9 Llundain Ein Cynllun Gwasanaeth Clinigol</b></p> <p>Cyflwynodd EH a VL eu hunain i'r partneriaid a rhoddon nhw gyflwyniad yn crynhoi'r hyn sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd o ran datblygu'r cynllun gwasanaethau clinigol newydd ac adeiladu YAC2. Anogwyd adborth gan y partneriaid.</p> <p>Dywedodd VL wrth y partneriaid y bydd gwaith yn cael ei wneud cyn bo hir i ymgysylltu ar y cynllun gwasanaethau clinigol, a byddai unrhyw adborth a sylwadau yn cael eu derbyn yn ddiolchgar. Disgwylir i'r ymgysylltu arfaethedig bara 7 wythnos gan ddechrau ym mis</p>	

<p>Mawrth 2021. Y themâu allweddol yw atal, lles, staff, arloesi mewn technoleg a meddyginiaethau a phwysigrwydd partneriaethau i sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion. Mae'r cynllun gwasanaeth clinigol yn ystyried dysgu o'r ymateb i COVID megis defnyddio arbenigedd o'r tu allan i'r arena iechyd fel y gwelir yn Ysbyty Calon y Ddraig.</p> <p>Dywedodd EH wrth y grŵp yr ystyriwyd disodli YAC ers peth amser a rhoddodd amlinelliad o'r achos busnes drafft dros YAC2 sy'n cael ei ddatblygu. Tynnodd EH sylw at y manteision i'r Fro sy'n cynnwys cleifion yn cael eu trin yn nes at eu cartrefi, darparu ystod ehangach o wasanaethau yn y Fro drwy ganolfannau iechyd a lles, swyddi newydd, buddsoddiad yn y rhanbarth sy'n debygol o fod dros £1 biliwn, gan ddenu gweithwyr proffesiynol medrus iawn i'r rhanbarth a manteision amgylcheddol cysylltiedig. Bydd yr achos busnes yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mawrth 2021.</p> <p>Diolchodd ME i EH a VL am y cyflwyniad a dywedodd y byddai tîm Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweithio ar les a lleihau effeithiau amgylcheddol yn awyddus iawn i gymryd rhan. Croesawodd EH hyn gan mai Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r llinell aur rhwng y strategaeth glinigol a'r achos busnes.</p> <p>Diolchodd CJ i'r ddau am y wybodaeth a nododd fod yr achos busnes trofswaol nid yn unig ar gyfer YAC2 ond y strategaeth gwasanaethau clinigol gyfan sy'n cynnwys cyfleoedd newydd yn Llandochau. Dywedodd EH wrth y partneriaid ers yr achosion o COVID fod mwy o feddygfeydd wedi'u trosglwyddo i Llandochau ac mae hyn yn rhywbeth a allai barhau, ychwanegodd VL fod gwaith ychwanegol yn mynd rhagddo i ddarganfod yr awydd am hyn. Bu datblygiad mawr yn Llandochau dros y blynyddoedd diwethaf gyda mwy o lawdriniaethau nad ydynt yn rhai brys yn digwydd yno, mae'r llawdriniaethau hyn yn llai tebygol o gael eu canslo oherwydd argyfyngau. Mae VL yn awyddus i ystyried cyfleoedd ar gyfer beth arall y gellir ei symud i'r amgylchedd hwn sy'n well i'r claf a'r staff.</p> <p>Gofynnodd LB sut yr oedd llais y claf yn cael ei gynnwys yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau gwasanaeth clinigol gan fod angen casgliad gwahanol o wasanaethau ar gleifion yn aml. Dywedodd VL wrth y partneriaid fod dull sy'n seiliedig ar lwybrau wedi'i ddefnyddio gan y deallir nad yw cleifion yn aml yn gweld y rhaniadau rhwng gwasanaethau. Mae defnyddwyr gwasanaeth presennol a thîm cenedlaethau'r dyfodol wedi helpu i gynllunio'r llwybrau. Bydd y broses ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd yn gofyn i bobl a hoffai gymryd mwy o ran yn y gwaith hwn gysylltu. Bydd hyn yn helpu i wneud gwasanaethau mor ddi-dor â phosibl i gleifion sy'n defnyddio gwahanol adrannau. Ychwanegodd EH fod Cath Doman o'r BPRh yn gweithio ar ofal integredig ledled Caerdydd a'r Fro i ddod â gwasanaethau at ei gilydd nid yn unig gwasanaethau iechyd ond gwasanaethau eraill fel tai ac ati. Awgrymodd EH y byddai'n hapus i gysylltu â Cath i siarad â'r BGC yn y dyfodol ar y maes gwaith hwn pe bai gan y partneriaid ddiddordeb.</p>	
<p><b>9. Y Flaenraglen Waith</b></p> <p>Rhoddodd TB drosolwg o'r flaenraglen waith sy'n tynnu sylw at y ffaith y bydd y Comisiynydd Pobl Hŷn yn bresennol yng nghyfarfod mis Ebrill ar gyfer trafodaethau ynghylch Bro o Gyfleoedd i'r Henoed. Bydd yr adroddiad ar gynnydd y Cynllun Symud Mwy Bwyta'n Dda bellach yn cael ei gyflwyno i'r BGC ym mis Gorffennaf nid mis Ebrill. Croesawodd TB unrhyw awgrymiadau gan y partneriaid ar gyfer eitemau agenda yn y dyfodol a gofynnodd i'r partneriaid gysylltu â fe neu HM.</p> <p>Dywedodd RT wrth y partneriaid y cynhaliwyd trafodaethau defnyddiol ar lefel Cymru ar adeiladu cyfoeth cymunedol a chaffael cynyddol yn dilyn COVID gan gynnwys materion yn</p>	

<p>ymwneud â phrynu'n lleol a datblygu cyfoeth o'r gwaelod i fyny. Awgrymodd RT y byddai'n ddefnyddiol cael trafodaeth ar hyn mewn cyfarfod y BGC yn y dyfodol. Cynhaliwyd y trafodaethau cenedlaethol blaenorol gan Nick Sullivan yn Llywodraeth Cymru. Cytunwyd y bydd RT yn cysylltu â Nick i weld a all fynychu cyfarfod yn y dyfodol.</p>	<p><b>RT</b></p>
<p><b>10. Unrhyw fater arall</b></p> <p>Tynnodd MB sylw at adroddiad diweddar a ddisbarthwyd i'r partneriaid yn amlinellu ymgysylltiad cyhoeddus diweddar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn y Fro. Mae'r adroddiad yn cynnwys trosolwg o rai o'r cwestiynau a ofynnwyd gan y cyhoedd, ac mae'r rhan fwyaf yn gyson â'r materion y mae'r BGC yn eu hystyried. Os oes gan y partneriaid unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag MB yn uniongyrchol.</p> <p>Dyweddodd TB wrth y partneriaid fod llythyr gan Lywodraeth Cymru wedi ei dderbyn sy'n cadarnhau bod arian grant y BGC ar gael ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r cyfanswm ychydig yn llai na £50k yn rhanbarthol. O ystyried y gwaith yr oedd angen ei wneud ar yr Aseiad Lles, gallai'r BGC ystyried defnyddio'r grant i gynorthwyo gwaith yn ymwneud â sut i ymgysylltu a sut y caiff data ei gasglu a'i gyflwyno. Bydd cynigion ar gyfer defnyddio'r arian yn cael eu datblygu gyda chydweithwyr yng Nghyngor Caerdydd/BGC a'u dosbarthu i'r holl bartneriaid i gytuno arnynt.</p>	
<p><b>11. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 30 Ebrill 2021, 10:30am – 12:30pm drwy Microsoft Teams</b></p>	